Cardiff Council Update: 8th July

In the latest update from Cardiff Council: a further two community Hubs reopening next week; a reminder that garden waste collections returned to normal this week; and “Out of Doors”, an exciting new online digital arts festival.

A further two community Hubs reopening next week

Grangetown Hub and Radyr Library will open again next Monday (July 13) as part of the phased return of services from our hubs and libraries.

There are currently six hubs open on an appointment-only basis (except for emergency cases) – Central Library Hub, St Mellons Hub, the Powerhouse, Ely & Caerau Hub, Llandaff North & Gabalfa Hub and Llanishen Hub.

Customers can access the new click and collect library service from all these facilities, as well as a range of advice services at the hubs such as Into Work, housing, benefits and money advice, when enquiries cannot be dealt with over the phone or email.

Green recycling and food waste bags can be collected too, without the need for an appointment.

Find out more about the click and collect library service here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23992.html

Contact our Adviceline or Library Line (Option 2) by calling 029 2087 1071 or email:
advicehub@cardiff.gov.uk

Kerbside garden waste collections returned to normal this week

Fortnightly, kerbside collections of Cardiff’s green, garden waste returned this week

Residents can check green waste collection days and dates for their area here:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/When-are-my-bins-collected/Pages/default.aspx

Collections should follow the pattern residents were used to before lockdown began.

The return of the fortnightly garden waste collection means that all normal kerbside collections are back in place across the city except for the glass bottle and jar pilot.

Residents living in the 14,000 homes which took part in the glass pilot are asked to continue to put their bottles and jars into their green recycling bags, rather than their blue caddy, until further notice.

To help council staff keep the streets clean residents are also being asked to use their brown food caddies for all vegetable peelings and leftover food waste, and to

make sure all their recyclables are washed out before they go into their green bags for collection.

The only waste that should be put into the green wheelie-bin are leaves, grass cuttings, plant or flower cuttings or small twigs or branches.

“Out of Doors” - An exciting new online digital arts festival

18-July - 15 August 2020

As young people and many adults look for ways to entertain themselves and their families creatively in lockdown, Arts Active have come up with a digital arts festival that people can engage and enjoy whilst staying safe and socially distanced behind their own front doors.

The Arts Active Trust is a registered charity that supports education, community and audience engagement projects from St David’s Hall and the New Theatre.

Arts Active has been leading the way in Wales with their engagement with schools, teachers, families and young people during lockdown, providing educational online resources, access to live creative tutorials along with links and advice. Out of Doors, will provide FREE access to online activities and will include artist led activities and mini projects to encourage people of all ages, not just kids, to be at one with nature whilst learning in a creative and fun way.

The arts have always had a significant role to play in supporting and evoking a sense of wellbeing for those that participate and engage with, from music, singing, dance, theatre to the visual arts, just to mention a few.

Much of the engagement with artists led activities in this festival will include nature and the natural world as the inspiration. As we step tentatively out of lockdown we want to encourage young people particularly, to enjoy nature in a fun, creative but importantly, a safe way. Being out of doors NOW more than ever, will have a positive impact on our mental health and wellbeing. This digital festival will bring all of these elements together to learn new things in a fun and creative way!

The festival will run for a month when it launches on Saturday 18 July - Saturday 15 August. Arts Active have created a diverse programme of events, where some of the activity is provided in a series of work for ages 1- 80. A taster of these include Tiddly Prom, (for ages 1-5) which comes in a series of 4 different activities based on the content, themes and characters associated with the Tiddly Prom. Family Prom, again a series of 4 differing activities (ages 5 & upwards); a series of 5 podcasts led by Jonathan James (ages 10 & upwards) in talks with various artists on the relationship, influence and inspiration between music and nature. A series of 12 Youth Arts activities that will support the development of new skills (ages 10-18) and of course the Quiz which has become synonymous with lockdown. Here we have created 4, family quizzes covering visual art, music, film and theatre (for ages 10 & upwards). I think we can honestly say, there is something for everyone!

In addition and alongside the festival, Arts Active are producing Creativity Parcels. A new initiative which will see these parcels delivered to support young people who are unable to access online activities due to rural locality, areas of deprivation and others within central south Wales. The parcels will be distributed to nominated pupils by the end of term to support them through the summer break. This is an exciting and what now appears to be a very in demand initiative led by Arts Active.

http://artsactive.org.uk/out-of-doors/

Diweddariad Cyngor Caerdydd: 8 Gorffennaf

Yn y diweddariad COVID-19 diweddaraf gan Gyngor Caerdydd: dau Hyb cymunedol arall yn ailagor yr wythnos nesaf; casgliadau gwastraff gardd ymyl palmant i ddychwelyd i normal yr wythnos hon; a "Gŵyl Tŷ Allan", gŵyl gelfyddydol ddigidol ar-lein newydd a chyffrous.

Dau Hyb cymunedol arall yn ailagor yr wythnos nesaf

Bydd Hyb Grangetown a Llyfrgell Radur yn ail-agor Ddydd Llun (13 Gorff) nesaf, fel rhan o'r broses o ailddechrau gwasanaethau yn hybiau'r ddinas yn raddol.

Ar hyn o bryd mae chwe hyb ar agor ar sail apwyntiad yn unig (ac eithrio achosion brys) - Hyb y Llyfrgell Ganolog, Hyb Llaneirwg, The Powerhouse, Hyb Trelái & Chaerau, Hyb Ystum Taf a Gabalfa a Hyb Llanisien.

Bydd cwsmeriaid yn gallu defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell clicio a chasglu newydd yn yr holl gyfleusterau hyn, yn ogystal ag ystod o wasanaethau cyngor yn y hybiau megis y Gwasanaeth i Mewn i Waith, tai, budd-daliadau a chyngor ariannol, lle na ellir delio gydag ymholiadau dros y ffôn neu dros e-bost.

Gellir casglu bagiau gwastraff bwyd ac ailgylchu gwyrdd heb drefnu apwyntiad hefyd.

Dysgwch fwy ar y gwasanaeth llyfrgell clicio a chasglu yma:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23993.html

Cysylltwch a'n Llinell Gyngor neu Llinell Llyfrgell (opsiwn 2) gan alw 029 2087 1071 neu ebost:
hybcynghori@caerdydd.gov.uk

Casgliadau gwastraff gardd ymyl palmant i ddychwelyd i normal yr wythnos hon

Mae casgliadau gwastraff gardd o ymyl y ffordd Caerdydd yn mynd i ddychwelyd bob pythefnos.

Gall preswylwyr wirio diwrnodau casglu gwastraff gwyrdd a dyddiadau ar gyfer eu hardal o 6 Gorffennaf yma:

http://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/Pryd-gaiff-fy-miniau-eu-casglu/Pages/default.aspx

Dylai casgliadau ddilyn y patrwm yr oedd preswylwyr yn gyfarwydd ag ef cyn y cyfyngiadau.

Mae'r ffaith fod y casgliad gwastraff gardd bob pythefnos wedi'i adfer yn golygu bod pob casgliad arferol o ymyl y ffordd bellach yn ôl yn y ddinas ac eithrio'r cynllun peilot poteli gwydr a jariau.

Gofynnir i drigolion sy'n byw yn y 14,000 o gartrefi a gymerodd ran yn y cynllun peilot gwydr barhau i roi eu poteli a'u jariau yn eu bagiau ailgylchu gwyrdd, yn hytrach na'u cadi glas hyd nes y ceir hysbysiad pellach.

Er mwyn helpu staff y Cyngor i gadw'r strydoedd yn lân, gofynnir i drigolion hefyd ddefnyddio eu cadis bwyd brown ar gyfer eu holl bilion llysiau a gwastraff bwyd dros ben, a sicrhau bod eu holl ddeunyddiau ailgylchadwy yn cael eu golchi cyn iddynt fynd i'r bagiau gwyrdd i'w casglu.

Yr unig wastraff y dylid ei roi yn y biniau gwyrdd yw dail, gwair wedi ei dorri, toriadau planhigion neu flodau a brigau a changhennau bychain.

"Gŵyl Tŷ Allan" - Gŵyl gelfyddydol ddigidol ar-lein newydd a chyffrous

18 Gorffennaf - 15 Awst 2020

Gyda phobl ifanc a llawer o oedolion yn chwilio am ffyrdd o ddiddanu eu hunain a'u teuluoedd mewn ffordd greadigol yn ystod y cyfnod clo, mae Actifyddion Artistig wedi creu gŵyl gelfyddydau ddigidol lle gall pobl gymryd rhan heb orfod camu'r tu hwnt i garreg eu drws.

Elusen gofrestredig sy'n cefnogi prosiectau ymgysylltu â'r gynulleidfa, addysg a'r gymuned o Neuadd Dewi Sant a'r Theatr Newydd yw Ymddiriedolaeth Actifyddion Artistig

Mae Actifyddion Artistig wedi bod yn arwain y ffordd yng Nghymru drwy eu hymgysylltiad ag ysgolion, athrawon, teuluoedd a phobl ifanc yn ystod y cyfnod clo, gan ddarparu adnoddau addysgol ar-lein, mynediad at diwtorialau creadigol byw, ynghyd â dolenni a chyngor. Bydd Gŵyl Tŷ Allan yn cynnig mynediad AM DDIM at weithgareddau ar-lein, a bydd yn cynnwys gweithgareddau dan arweiniad artistiaid a mini-brosiectau i annog pobl o bob oed, nid dim ond plant, i fwynhau natur gan ddysgu mewn ffordd hwyliog a chreadigol.

Mae'r celfyddydau wastad wedi chwarae rôl allweddol yn cefnogi ac yn ysgogi ymdeimlad o lesiant ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan ac yn ymgysylltu â nhw, gyda cherddoriaeth, canu, dawns, theatr, a'r celfyddydau gweledol i enwi dim ond rhai.

Bydd llawer o'r ymgysylltiad â'r gweithgareddau dan arweiniad artistiaid yn yr ŵyl yma yn cynnwys natur a byddant wedi'u hysbrydoli gan fyd natur. Wrth i ni gamu'n

betrusgar o'r cyfnod clo, rydyn ni am annog pobl ifanc yn benodol i fwynhau natur mewn ffordd hwyliog, greadigol ac yn bwysicaf oll, diogel. Bydd bod tu allan NAWR yn fwy nag erioed yn cael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd meddwl a'n llesiant. Bydd yr ŵyl ddigidol yma'n dod â'r holl elfennau yma at ei gilydd i ddysgu pethau newydd mewn ffordd hwyliog a chreadigol!

Bydd yr ŵyl yn cael ei chynnal dros gyfnod o fis, a bydd yn cael ei lansio ddydd Sadwrn 18 Gorffennaf ac yn parhau tan ddydd Sadwrn 15 Awst. Mae Actifyddion Artistig wedi creu rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau, a darperir rhywfaint o'r gweithgareddau mewn cyfres o waith i bobl rhwng 1 ac 80 oed. I roi blas ar y rhain mae Prom Tidli (i blant rhwng 1 a 5 oed), sy'n gyfres o 4 gweithgaredd gwahanol yn ymwneud â chynnwys, themâu a chymeriadau Prom Tidli. Prom Teulu, sydd eto yn gyfres o 4 gweithgaredd gwahanol (i blant 5 oed a hŷn); cyfres o 5 podlediad dan arweiniad Jonathan James (10 oed a hŷn) yn cynnwys sgyrsiau gydag artistiaid amrywiol am y berthynas, y dylanwad a'r ysbrydoliaeth rhwng cerddoriaeth a natur; cyfres o 12 gweithgaredd Celfyddydau Ieuenctid a fydd yn cefnogi datblygiad sgiliau newydd (rhwng 10 ac 18 oed). Ac, wrth gwrs, y Cwis - sydd wedi bod yn rhan fawr o'r cyfnod clo! Rydyn ni wedi creu 4 cwis i'r teulu ar bynciau celfyddydau gweledol, cerddoriaeth, ffilm a theatr (ar gyfer plant 10 oed a hŷn). Gallwn ddweud yn onest - mae rhywbeth i bawb!

http://artsactive.org.uk/gwyl-ty-allan/